| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR** |
| **DYDDIAD** | **15 Rhagfyr, 2011** |
| **TEITL** | **TREFNIADAU DEMOCRATAIDD Y CYNGOR.** |
| **PWRPAS** | **Cynnig newidiadau i strwythur y Cyngor a rôl aelodau mainc gefn i gefnogi'r newid i drefn Cabinet** |
| **AWDUR** | **Dilys Phillips, Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor.** |

**Cefndir**

1. Wrth wneud ei benderfyniad ar 20 Hydref 2011 i fabwysiadu model Arweinydd a Chabinet o weithrediaeth ym Mai 2012 gofynnodd y Cyngor am adroddiad fyddai'n cyfarch rôl yr aelodau mainc gefn, eu dylanwad ar waith y Cyngor a'r dasg allweddol o ddal y Cabinet i gyfrif.

2. Gofynnwyd i'r Gweithgor Gwasanaethau Aelodau ymgymryd â'r gwaith yma gan gyflwyno adroddiad yn ôl i'r Prif Bwyllgor Craffu ar 8 Rhagfyr 2011. Gan fod rhaglen y Cyngor yn cael ei dosbarthu cyn y dyddiad hwnnw bydd argymhellion y pwyllgor yn cael eu hanfon ar wahan at aelodau.

3. Rhoddodd y Gweithgor ystyriaeth i nifer o ddulliau o gryfhau rôl aelodau mainc gefn a chaniatau iddynt alw'r Cabinet i gyfrif. Yr hyn a gyflwynir i'r Prif Bwyllgor Craffu yw dewislen o ddulliau a fydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio fframwaith newydd gref i'r Cyngor i gefnogi'r newid i drefn Cabinet.

4. Rhestrir yma brif nodweddion y fframwaith ac yna fe roddir disgrifiad byr o bob un.
    - Sefydlu fforymau ardal
    - Y cyswllt Cabinet/mainc gefn
    - Gweithdai
    - Strwythur y pwyllgorau craffu
    - Rôl y Cyngor Llawn
    - Strwythur pwyllgorau eraill
    - Cefnogaeth a gwybodaeth i aelodau

5. Nid oes raid i'r cynigion am y strwythur mainc gefn gael eu hanfon i Lywodraeth Cymru yn yr un modd â'r cynigion i newid i drefn Cabinet a bydd yn rhydd i'r Cyngor newydd eu diwygio os yw'n dymuno. Cyflwynir y Cyfansoddiad newydd (yn cynnwys unrhyw gynigion gan y Cyngor hwn) i'r Cyngor newydd i'w fabwysiadu fis Mai.

**Fforymau ardal**

6. Cychwynnwyd y drafodaeth ar sefydlu fforymau ardal fel rhan o'r gwaith grymuso cymunedau gyda'r nod o rymuso'r aelod lleol, gwella'r ymgysylltiad hefo cymunedau, cael gwell canlyniadau i'r ardal a gwneud gwell defnydd o adnoddau aelodau a swyddogion. **Mae adroddiad llawn ar ffoymau ardal i'w gael gyda rhaglen y Prif Bwyllgor Craffu.**

7. Cynhaliwyd proses ymgynghori gydag aelodau oedd yn dangos fod rhai o blaid a rhai yn erbyn ond wedi ystyried y mater, argymhelliad y Gweithgor Gwasanaethau Aelodau i'r Prif bwyllgor Craffu ydi sefydlu fforymau ardal i weithredu ar draws y sir ac i gymryd lle'r pwyllgorau ardal presennol.

8. Byddai'r fforymau (yr union nifer i'w benderfynu ond oddeutu 8 -12) ar sail cymunedau naturiol gydag aelodaeth graidd o'r holl aelodau lleol oddi fewn i'r ardal. Byddai uwch swyddog yn cynorthwyo bob fforwm a'r modd ganddynt i wahodd cynrychiolwyr y cymdeithas neu asiantaethau eraill yn ol y galw. Byddai'r cyfarfodydd yn anffurfiol ac yn canolbwyntio ar sefydlu beth yw dyheadau'r ardal, hyrwyddo datrysiadau lleol a dylanwadu ar bolisiau'r Cyngor.

9. Diswylir mai'r budd fyddai'n deillio o sefydlu'r fforymau fyddai trefn strwythuredig er mwyn sicrhau fod llais lleol yn cael ei glywed wrth lunio gweithgareddau'r Cyngor ac ar yr un pryd cryfhau rôl yr aelod lleol fel arweinydd o fewn yr ardal.

10. Cynigir i'r fforymau gymryd lle'r pwyllgorau ardal presennol i osgoi dyblygu ac am nad oes digon o adnoddau i gynnal y ddau. Bydd peth o waith y pwyllgorau ardal yn trosglwyddo i'r Cabinet yn sgil Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ac ni fydd modd iddynt barhau gyda'u maes gwaith presennol. Fodd bynnag, mae'r pwyllgorau ardal ar hyn o bryd yn fodd o ganiatáu i aelodau dderbyn gwybodaeth a holi penaethiaid gwasanaeth am ddatblygiadau gwasanaeth. Mae gweddill y cynigion ar gyfer y fframwaith newydd yn cyfarch hyn.

**Cyswllt hefo'r Cabinet**

11. *Cymorthfeydd* - Gydag aelodau'r Cabinet yn dod yn fwy gweithredol rhagwelir y bydd ganddynt wybodaeth a pherchnogaeth fwy trylwyr o ddatblygiadau oddi fewn i'w maes portffolio. Un ffordd o sicrhau atebolrwydd i'r aelodau mainc gefn ydi trwy gynnal cyfarfodydd neu gymorthfeydd rheolaidd. Gallai hyn fod ar sail cyfarfodydd wedi eu trefnu gyda grwpiau o aelodau ( o bosib ar sail fforwm ardal) neu gymorthfeydd lle bo aelodau unigol yn galw i mewn i drafod materion o fewn y portffolio.

12. Gellid defnyddio'r sesiynau naill ai i drafod datblygiadau cyffredinol yn y maes (gweler hefyd "Rôl y Cyngor Llawn" isod) neu i godi pwyntiau penodol lle mae'r aelod wedi methu cael y maen i'r wal gyda'r adran berthnasol. Bydd trefniadau o'r fath yn atgyfnerthu'r disgwyliad fydd ar aelodau'r Cabinet i benderfynu ar faterion a gyfeirir atynt gan aelodau sy'n anfodlon gydag ymatebion penaethiaid adrannau.

13. *Pencampwyr* - Mae gan y Cyngor nifer o “bencampwyr” (e.e. Pencampwr Pobl Hyn, Pencampwr Iechyd a Diogelwch) sydd ar hyn o bryd yn cael eu penodi o blith yr Arweinyddion Portffolio. Ar gyfer y Cyngor newydd cynigir y dylai’r pencampwyr yma ddod o blith aelodau mainc gefn. Byddai ganddynt y dyletswyddau penodol o ymddiddori mewn meysydd arbenigol, bod yn adfocad o fewn y Cyngor ar y meysydd rheini a chynnig cefnogaeth a gwybodaeth arbenigol i aelodau Cabinet.

**Gweithdai**

14. Un o’r dulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd i sicrhau gweithredu mewn modd gynhwysol ydi gweithdai i holl aelodau’r Cyngor e.e. llunio’r Cynllun Tair Blynedd, neu ddarganfod arbedion. Tra bod profiad o’r gweithdai unigol yn amrywiol mae cytundeb ymysg aelodau bod y gweithdai, o’u gwneud yn iawn, yn ffordd hwylus ac effeithiol o gynnwys barn aelodau mainc gefn yn y prif ddatblygiadau. Y bwriad felly ydi i’r drefn gweithdai ddod yn rhan greiddiol o waith y Cyngor ac i sylw ei roi i’w cynnal mewn modd sy’n ychwanegu gwerth.

**Pwyllgorau craffu**

15. Bydd rôl y pwyllgorau craffu yn newid a’u gwaith yn canolbwyntio ar y dasg o alw’r Cabinet ac aelodau unigol y Cabinet i gyfrif a chraffu ar effaith penderfyniadau’r Cabinet a darpariaeth gwasanaeth. Disgwylir iddynt gynnal mwy o ymchwiliadau ond ymdrin llai â thrafod adroddiadau sydd ar eu ffordd i’r Cabinet. **Mae adroddiad llawn ar strwythur y pwyllgorau craffu i’w gael gyda rhaglen y Prif Bwyllgor Craffu**.

16. Y cynnig ydi sefydlu 3 phwyllgor craffu gyda 18 aelod ar bob un, i weithredu ar sail themâu yn hytrach na gwasanaethau ac i gyfarfod yn amlach na’r pwyllgorau presennol. Cynigir fel themau:
    - datblygiad y gorfforaeth, ei bolisiau a phrif strategaethau (materion mewnol)
    - darpariaeth gwasanaeth i’r gymdeithas yn ei ystyr ehangach
    - darpariaeth gwasanaeth i unigolion

    Byddai gan y tri yr hawl i alw i mewn benderfyniadau’r Cabinet i’w craffu.

17. Mantais trefn o’r fath ydi creu elfen o hyblygrwydd fel bod modd trosglwyddo gwaith o’r naill bwyllgor i’r llall, yn ddibynnol ar lwyth gwaith y pwyllgorau a chaniatau pontio rhwng meysydd cysylltiedig. Byddai’r Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu yn cael y gwaith o gydlynu’r rhaglenni.

18. Rhagwelir y bydd y drefn gweithgorau craffu, sydd wedi bod yn un o lwyddiannau’r gyfundrefn craffu, yn parhau. Yn ogystal bydd gwaith y Pwyllgor Archwilio yn ehangu fel ei fod yn ymdrin â chraffu rhai materion, yn enwedig trefniadau cyllidol a llywodraethol y Cyngor.

19. Credir y byddai’r cynnig hwn yn creu trefniadau craffu hyblyg sy’n ymateb i ofynion y Cyngor newydd ac yn cefnogi’r newid i drefn Cabinet. Bydd angen addasu’r Strategaeth Trosolwg a Chraffu i gydfynd hefo’r pwyslais newydd.

**Rôl y Cyngor Llawn**

20. Bydd y Cyngor llawn yn cadw’r rôl o osod cyllideb a’r fframwaith polisi ynghyd â’r materion lled farnwriaethol megis cynllunio a thrwyddedu, ond bydd popeth arall yn cael ei benderfynu gan y Cabinet ac ni fydd hawl cyfeirio i fyny ar benderfyniadau’r Cabinet oni bai eu bod yn groes i’r fframwaith bolisi neu’r gyllideb.

21. Ystyriwyd nifer o opsiynau ar gyfer sicrhau rôl ystyrlon i’r Cyngor Llawn. Mae’r cynigion terfynol yn disgyn i ddau gategori sef rhai sy’n ymwneud â mewnbwn y cyhoedd a’r rhai sy’n ymwneud ag aelodau’r Cyngor. Cynigir y dylai’r Cyngor Llawn gyfarfod yn chwarterol.

22. *Cyfraniad y cyhoedd* - tybiwyd bod caniatáu cyfraniad gan y cyhoedd yn hybu democratiaeth ac argymhellwyd dau newid i’r Cyfansoddiad, sef:

    22.1 Cyflwyno trefn o gynnwys cwestiynau gan y cyhoedd ar raglenni Cyngor Llawn dan amodau caeth fyddai’n cyfyngu nifer y cwestiynau ymhob cyfarfod i ddau, yn gwarchod rôl yr aelod lleol trwy beidio caniatáu cwestiynau am faterion plwyfol, yn gwahardd ail-adrodd cwestiwn ar yr un testun o fewn blwyddyn ac yn mynnu rhybudd o 10 diwrnod ar gyfer pob cwestiwn. Byddai’r ateb yn cael ei gynnig gan yr Arweinydd Portffolio perthnasol a byddai hawl i gwestiwn atodol.

    22.2 Cyflwyno trefn o dderbyn deisebau gan y cyhoedd. Unwaith eto byddai rheolau yn cyfyngu’r cyfnod y caiff aelod o’r cyhoedd siarad ar ddeiseb i 3 munud, yn cyfyngu’r amser a roddir i ddeisebau mewn unrhyw gyfarfod o’r Cyngor i 15 munud, yn ymdrin â thestun y ddeiseb ac yn mynnu llofnod 50 etholwr cyn y gellir cyflwyno deiseb.

23. *Aelodau’r Cyngor* – rhagwelir newid rhywfaint ar y Cyfansoddiad i sicrhau bod aelodau yn gallu derbyn gwybodaeth berthnasol a chynnal trafodaethau yn y Cyngor Llawn trwy’r dulliau canlynol:

    23.1 Derbyn anerchiad gan Arweinydd y Cyngor, gyda thrafodaeth i ddilyn, ar waith y Cyngor dros y flwyddyn. Yn ymarferol mae’n debyg y byddai hyn yn cyfateb i adroddiad ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Tair Blynedd.

    23.2 Derbyn anerchiad gan bob aelod arall o’r Cabinet yn ei dro (rhyw ddau neu dri ymhob cyfarfod, fel bod pob aelod o’r Cabinet yn cyflwyno ei adroddiad unwaith y flwyddyn).

    23.3 Cynnal trafodaeth ar bwnc penodol, y pwnc i’w ddewis gan aelodau mainc gefn trwy drefn i’w phennu. Byddai rheolau penodol yn ymwneud hefo beth sy’n bwnc addas, sut i’w ddewis a pha wybodaeth gefndirol i’w ddarparu ond pwrpas y drafodaeth fyddai rhoi cyfle i bawb fynegi barn a ellid ei hystyried wrth lunio polisïau yn hytrach na chael penderfyniad penodol. Mae enghraifft a welwyd mewn Cyngor arall yn ymwneud hefo “Ymgysylltu a’r Cyhoedd”.

**Strwythur pwyllgorau eraill**

24. Bydd aelodau mainc gefn yn parhau i gyfrannu at waith y Cyngor trwy'r gyfundrefn bwyllgorau oddi allan i'r Cabinet. Bydd rhain yn cynnwys y Pwyllgor Archwilio (gweler y rhan ar y pwyllgorau craffu), Cynllunio, Trwyddedu, Pwyllgor Safonau, Pwyllgor Apelau Cyflogaeth a'r Pwyllgor Pensiynau.

25 Bydd raid sefydlu Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd newydd gyda rôl o gadw trosolwg ar wasanaethau i aelodau. I raddau helaeth bydd yn disodli'r Gweithgor Gwasanaethau Aelodau.

26 Yn unol â'r pwyslais a roddir ar faterion iaith argymhellir uwchraddio'r is-bwyllgor iaith i ddod yn bwyllgor ar ei ben ei hun yn adrodd i'r Cyngor.

27 Argymhellir bod y Pwyllgorau Ymgynghorol harbwr hefyd yn sefyll ar eu pennau eu hunain (maent ar hyn o bryd yn is-bwyllgorau o'r Bwrdd) ond y byddant yn adrodd i'r Cabinet ar unrhyw fater sydd angen gweithredu yn unol â'r cyfrifoldeb statudol dros faterion harbwr.

**Cefnogaeth i aelodau**

28. Er mwyn i'r aelodau gyflawni eu gwaith, boed ar y Cabinet neu ar y meinciau cefn mae arnynt angen cefnogaeth gadarn a safonol. Gellir edrych ar y gefnogaeth dan tri pennawd sef cefnogaeth swyddogion, offer ac adnoddau a llif gwybodaeth.

28.1 *Cefnogaeth gan swyddogion* - er mwyn sicrhau cefnogaeth gref i aelodau mainc gefn argymhellir cael rhaniad clir rhwng y swyddogion sy'n cefnogi'r Cabinet a'r rhai sy'n cefnogi'r aelodau mainc gefn, y pwyllgorau craffu a'r pwyllgorau eraill, gan sefydlu'r ddau dim ar wahan.

28.2 *Offer ac adnoddau* - cynigir bod y Cyngor newydd yn gweithio yn gwbl electronaidd gyda darpariaeth ar gael i bob aelod gan anelu yn y pen draw at weithredu yn ddi-bapur. Bydd strategaeth technoleg gwybodaeth i gefnogi'r cyfeiriad yma yn cael ei chyflwyno i Fwrdd y Cyngor yn y misoedd nesaf.

28.3 *Llif gwybodaeth* – Argymhellir y dylid creu safle arbennig ar gyfer aelodau ar wefan y Cyngor lle bydd disgwyl i adrannau roi gwybodaeth gyson am ddatblygiadau yn eu gwasanaethau. Yn ogystal gellir cynnwys adroddiadau blynyddol megis y rhai a geir gerbron y pwyllgorau ardal ar hyn o bryd.

**Argymhellion**

29. Cyflwynir argymhellion y Prif Bwyllgor Craffu ar y cynigion uchod ar wahan a gofynnir i'r Cyngor eu hystyried a'u mabwysiadu.